



# ADNODDAU



## ADNODDAU ARIANNOL

---

- ▶ Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif y bydd llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu diffyg cronus o £750 miliwn mewn arian gwasanaethau cymdeithasol erbyn 2019-20.
- ▶ Mae pwysau cyllideb mewn gofal cymdeithasol yn codi oherwydd mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn canolbwyntio'n drwm ar y mwyaf oedrannus a'r boblogaeth ag anabledau dysgu.
- ▶ Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol yn cynnwys galw cynyddol am wasanaethau cymhleth cysylltiedig â newid demograffig a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.
- ▶ Amcangyfrifir, erbyn 2035, y bydd nifer y bobl hŷn na 65 oed sy'n byw yng Nghymru yn cynyddu 35%.
- ▶ Y cynnydd mwyaf fydd yn nifer y bobl 85 oed a hŷn. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 113% erbyn 2035.
- ▶ Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod dementia, gan gynnwys clefyd Alzheimer wedi cymryd lle clefyd y galon fel y prif achos o farwolaeth yng Nghymru a Lloegr.
- ▶ Yng nghyflwyniad CLILC i ymholiad y Pwyllgor Cyllid ar gynigion drafft cyllideb Llywodraeth Cymru, amcangyfrifwyd bod chwyddiant ar gyfer holl wasanaethau Awdurdod Lleol yn agos at 6% dros y cyfnod hyd at 2019-20.
- ▶ Roedd adolygiad gofal cartref CSSIW yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn Hydref 2016, wedi tynnu sylw at freuder y farchnad gofal cymdeithasol a chanfuwyd bod dulliau cyfredol yn anghynaliadwy.



- ▶ Datganodd y Sefydliad Iechyd (2016) bod her cynaliadwyedd y GIG yn cael ei llywio gan y canlynol:

▼ Y boblogaeth sy'n heneiddio

▼ Y cynnydd mewn cyflyrau cronig (yn enwedig clefyd coroniadd y galon neu fethiant y galon, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint neu asthma, a chanser


▼ Argaeledd gofal cymdeithasol

▼ Cost tâl

▼ A, chamgymharu cyllid i ddiwallu costau'r gwasanaethau hyn

- ▶ Mae pwysau gwario ar GIG Cymru hyd at 2030/31 yn dangos diffyg rhagamcanol o £3.9 biliwn, sy'n gyfartal â chodiad o 3.2% mewn costau bob blwyddyn.

### ▼ Pwysau gwario rhagamcanol yng Nghymru hyd at 2030/31





## DATBLYGU'R GWEITHLU

---

- ▶ Oherwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym disgwylir i nifer y bobl hŷn fod yn fwy na nifer yr aelodau teulu oedran gweithio mor gynnar â 2017
- ▶ Mae mwy o bobl a anwyd ag anabledau yn goroesi i fod yn oedolion ac yn byw bywyd hir
- ▶ Mae llawer mwy o bobl yn goroesi salwch difrifol fel cancer neu strôc ac mae'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn cynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal
- ▶ Ar draws y DU, mae 1.87 miliwn o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gofal ac mae gan 70% o bobl brofiad personol o ddefnyddio gwasanaethau gofal neu mae ganddynt deulu agos sydd â phrofiad o'u defnyddio.
- ▶ Mae gwariant cyhoeddus a phreifat ar wasanaethau gofal yn werth mwy na £30 biliwn y flwyddyn ledled y DU
- ▶ Mae'r sector yn cyflogi un allan o ddeg o'r holl ferched sydd mewn cyflogaeth
- ▶ Mae'r sector yn amrywiol, gyda thros 62,400 o sefydliadau unigol yn darparu gwasanaethau gofal
- ▶ Mae llawer ohonynt yn fusnesau bach a chanolig ac mae bron hanner y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gyflogi gan sefydliadau preifat/masnachol ac mae 93% o fusnesau'n cyflogi llai na 50 o weithwyr. Mae 29% o weithwyr yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus
- ▶ Mae canran uwch na'r cyfartaledd o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn gweithio'n rhan-amser, ag anabled neu o grŵp lleiafrifoedd ethnig



- ▶ Mae'r gostyngiad mewn cyflogaeth ar draws y DU wedi parhau, ond ar draws Bae'r Gorllewin, mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr o bwys
  - ▶ Mae mwy o weithwyr gofal yn cael eu cyflogi gan ddefnyddwyr gwasanaethau oherwydd mae'r defnydd o daliadau uniongyrchol yn dod yn fwy cyffredin
  - ▶ Mae costau'n cynyddu i gyflogwyr ar adeg pan mae cyllidebau'n crebachu, sy'n golygu bod angen mwy o arbedion a mwy o gynhyrchedd
  - ▶ Mae technolegau newydd yn newid y ffordd y mae rhai mathau o ofal yn cael eu darparu – e.e. teleofal
  - ▶ Mae angen llawer mwy o waith amlddisgyblaethol ar gyfer modelau newydd o ddarparu gwasanaethau gyda phwyslais ar sgiliau byw'n annibynnol
  - ▶ Mae prinder sylweddol mewn grwpiau staff allweddol, yn enwedig grwpiau proffesiynol, sy'n golygu y bydd angen darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol wrth symud ymlaen, a dibynnu mwy ar y trydydd sector a'r sector annibynnol
  - ▶ Mae cymwysterau a hyfforddiant gofalu yn parhau i fod yn her barhaol ar draws y sector gofal cymdeithasol ac mae hyn yn cael ei reoleiddio'n gynyddol
  - ▶ Mae angen i sgiliau arweinyddiaeth, rheolaeth a chomisiynu gael sylw i sicrhau bod sefydliadau'n barod i ddelio â'r heriau sy'n eu hwynebu
- 





# **WESTERN BAY**

## **POPULATION ASSESSMENT REPORT**

[www.westernbay.org.uk](http://www.westernbay.org.uk)